

Tro ar hyd y prom

... a hithau'n nosi ...

Frenin haul, fochgochyn, sofren y dydd,
fe'm cyffyrddi, gan greu o groen gornbilen,
o feingefn nerf optig, creu cryndod mewn corff
a'i ddallu â'r llond lletwad o aur a dywellti
dros y môr hwn, y ddinas hon, ac nis gwelaf.
Safai rhesi yma unwaith – lle safant o hyd, fe wn –
rhesi tai a strydoedd yn eiddo i ddinas wahanol
i'r ddinas hon a weddnewidiwyd gennynt yn llwyr.

Ymlwybrwn ar hyd y lan. Mae cychod
y pysgotwyr nos yn barod i fynd,
eu moduron yn mydru, lampau paraffin ar bob pen,
a'r dref i gyd yn mynd am dro ar hyd y prom;
cariadon fraich ym mraich, bois yn swagro'n dalog,
mamau, tadau, plant yn bwyta hufen iâ,
hen ddyinion yn syllu o'u byrddau ar bwys
a'r bryniau tywyll yn nesáu fel haid o anifeiliaid hoff.

Belydryn hwyrol hardd, ar daen dros fryn a bae,
fel pe bai ar hap, ein breichiau ni sy'n cyffwrdd nawr,
yn union fel cyffwrdd â'r fenyw ifanc hon wrth f'ymyl,
hon drwm ei chluniau, byr ei cham a siglog ei hosgo,
ei gwallt gloywddu wedi'i gywain, ei gwddf main a'i hysgwyddau'n
llawn lliw haul, a chwerthin lond ei llygaid.
Fe'th yfaf, olau byw, fel gwin neu gerdd,
fel yr yfodd ei hynafiaid ti erioed.

Ddinas y mân-gelloedd, ei henw yw *Eleftheria*,
ac er nad yw dy greithiau'n ddim ond llwch yn ei llygaid,
yr awr hon, pan fo'r golau ac adlewyrch y golau'n
chwarae yn ei hwyneb mor gynnil â sgwrs neu gân,
ei heiddo hi'r hen hawl i gerdded ger y cei,
yn gyfrwng i'th olau ac yn warcheidwad iddo
wrth i'r pelydrau Gronni yng nghanhwyllau dyfnion ei llygaid,
a'i heiddo hi, ryddid hoff, yr hawl i'th droedio fel pe bai'n dawnsio.

Hwyr hoff, olau hyned â'r oesoedd,
gantor eglurgain hyfryted â hon,
sut na allwn ymserchu yn y gras a grëi

ar gyfer y ddinas hon a'i phobl, gerfluniwr
pob un a phob peth a gyffyrddi, yr hollfyd?
Rwy'n gaethwas iti'n awr, onid dy ddinesydd.
Ac o sychedu am gael dy yfed yn llwyr, llenwn
bob un gell â'th lewych, ei rhyddid.

Richard Berengarten

Cyfieithydd / Translator *Eurig Salisbury*

interLitQ.org